
# Adroddiad Blynyddol 2015 – 2016

## Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Gorffennaf 2016**



## Y Bwrdd Taliadau

Y corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff yw Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd drwy Fesur (Taliadau) Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010.

## Aelodau'r Bwrdd

**Y Fonesig Primarolo DBE PC (Cadeirydd)**

**Trevor Reaney CBE**

**Mike Redhouse**

**Y Fonesig Jane Roberts**

**Roger Williams** (Gadawodd y Bwrdd ym mis Mai 2016)

## Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

**Gwion Evans**, Clerc

**Dan Collier**, Dirprwy Glerc

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Mae copïau o'r adroddiad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi papur oddi wrth:
**Clerc y Bwrdd Taliadau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**
Ffôn: 0300 200 6330
Ebost: **Taliadau@cynulliad.cymru**

# Cynnwys

**Cyflwyniad....................4**
**Y Bwrdd Taliadau....................5**
**Gwaith y Bwrdd yn 2015-16....................9**
**Rhaglen Waith 2016-17....................17**
**Cylch Gwaith ac Aelodaeth y Bwrdd Taliadau....................18**
**Atodiad A: Aelodau'r Bwrdd newydd (Medi 2015 - Ebrill 2016)....................19**
**Atodiad B: Aelodau'r Bwrdd blaenorol (hyd at fis Medi 2015)....................22**
**Atodiad C: Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd....................24**

# Cyflwyniad

Rwy'n falch iawn o gael fy mhenodi'n Gadeirydd ar Fwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae gan fy nghyd-aelodau ar y Bwrdd brofiad ac arbenigedd helaeth y byddwn yn manteisio arnynt i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r heriau sy'n codi yn sgil y ffaith bod y cyfansoddiad yn newid yn barhaus.

Hoffwn ddiolch i'r Bwrdd blaenorol am gyflawni cymaint. Roedd yr adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad yn gynhwysfawr ac yn garreg filltir bwysig yn esblygiad y Bwrdd a'r Cynulliad fel Deddfwrfa sy'n aeddfedu.

Gwyddai'r Bwrdd y byddai rhai o'i benderfyniadau yn amhoblogaidd, yn enwedig ei benderfyniad ynglŷn â chyflogau Aelodau'r Cynulliad. Fodd bynnag, teimlai fod angen newidiadau radical er mwyn sicrhau bod Aelodau newydd y Cynulliad yn cael cefnogaeth ac adnoddau digonol i gyflawni eu dyletswyddau Seneddol, gan gadw at egwyddor sicrhau gwerth da am arian i'r pwrs cyhoeddus.

Mae cynllun pensiwn newydd Aelodau'r Cynulliad wedi'i gymeradwyo gan Drysorlys EM ac mae'n cael ei roi ar waith. Sicrhaodd y Bwrdd blaenorol fod y cynllun yn addas at y diben ac y byddai'n arbed arian am flynyddoedd lawer.

Er mwyn adeiladu ar y seiliau a osodwyd gan y Bwrdd blaenorol, byddwn y parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol ac yn gyson ag Aelodau'r Cynulliad a'u staff er mwyn esbonio meddylfryd y Bwrdd ac er mwyn cael adborth gan y rheini yr effeithir arnynt yn fwyaf uniongyrchol. Byddwn hefyd yn datblygu cysylltiadau cynhyrchiol â rhanddeiliaid eraill. Yn y pen draw, fodd bynnag, mae penderfyniadau'r Bwrdd yn annibynnol a'r Bwrdd ei hun sy'n gyfrifol am eu gwneud.

Mae gennym lawer i'w wneud. Ein blaenoriaeth gyntaf yw paratoi ein rhaglen waith strategol i gynllunio ar gyfer yr heriau a ddaw yn sgil Cynulliad newydd sydd â 37% o Aelodau newydd; Llywydd newydd; Comisiwn newydd i'r Cynulliad; newidiadau i gyfansoddiad gwleidyddol y Cynulliad; ac, wrth gwrs, rheoli cymhlethdodau'r newid cyfansoddiadol sydd o'n blaen.

Ym mis Ebrill 2016, penderfynodd Roger Williams roi'r gorau i'w swydd ar y Bwrdd i fynd ar drywydd diddordebau gwleidyddol. Ychwanegodd werth mawr at waith y Bwrdd, yn enwedig o ran ei ddirnadaeth o'r dirwedd wleidyddol yng Nghymru. Hoffwn i ac aelodau eraill y Bwrdd ddiolch iddo am ei gyfraniad at ein gwaith cychwynnol. Byddwn yn gweld eisiau ei ddealltwriaeth yn fawr. Serch hynny, edrychwn ymlaen at groesawu aelod newydd i'r Bwrdd yn ystod y misoedd nesaf.

Ein nod fydd parhau â gwaith da y Bwrdd blaenorol ond gan fynd ati hefyd i wynebu'r heriau a ddaw yn sgil y Cynulliad newydd, a hynny o safbwynt newydd a chyda rhagor o egni.

# Y Bwrdd Taliadau

*Mae'r bennod hon yn disgrifio swyddogaethau'r Bwrdd, ei gylch gwaith a'i ffyrdd o weithio*

## 1.1 Sefydlu a Phenodi

1.1.1 Y corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff yw Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd drwy Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (y Mesur) a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

1.1.2 Cwblhaodd y Bwrdd Taliadau cyntaf ei dymor gwaith ym mis Medi 2015 a phenodwyd Bwrdd newydd drwy ddilyn gweithdrefn penodiadau cyhoeddus a thryloyw. Mae bywgraffiadau holl aelodau newydd y Bwrdd yn Atodiad A. Mae gwybodaeth am Aelodau'r Bwrdd blaenorol, a benodwyd am gyfnod penodedig o bum mlynedd, yn Atodiad B.

1.1.3 Cymeradwyodd Comisiwn y Cynulliad benodiadau aelodau newydd y Bwrdd yn ffurfiol ar 21 Medi 2015, a chynhaliodd y Bwrdd ei gyfarfod cyntaf ar 17 ac 18 Medi 2015. Yn y cyfarfod hwnnw, canolbwyntiwyd yn bennaf ar ymsefydlu aelodau newydd y Bwrdd a chlywed barn a phrofiadau aelodau'r Bwrdd a oedd yn dod i ddiwedd eu cyfnod.

## 1.2 Swyddogaethau ac Amcanion

1.2.1 Swyddogaethau'r Bwrdd, fel y'u nodir yn Adran 3 o'r Mesur, yw penderfynu ar lefel o daliadau a system o gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad (a elwir o hyn ymlaen yn Aelodau) sy'n eu galluogi i gyflawni eu swyddi.

1.2.2 Mae'r Mesur yn nodi tri amcan allweddol y mae'n rhaid i'r Bwrdd eu cyflawni wrth wneud Penderfyniad, sef:

- darparu lefel o dâl i Aelodau'r Cynulliad sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y maent yn ymgymryd â hwy, ac nad yw'n rhwystro unigolion, am resymau ariannol, rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad;
- darparu adnoddau digonol i Aelodau'r Cynulliad i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau; a
- sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

## 1.3 Gofynion Statudol

1.3.1 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae adran 3 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd adolygu'r ffordd y gweithredir ei benderfyniadau a'i effeithiolrwydd yn barhaus, gan ystyried yn benodol y profiad y mae'r Bwrdd yn ei ennill wrth roi ei Benderfyniadau ar waith, unrhyw newidiadau i swyddogaethau Aelodau'r Cynulliad, ac unrhyw amgylchiadau eraill sy'n berthnasol.

1.3.2 Er ei fod yn annibynnol ar y Cynulliad, ac nad yw'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd na rheolaeth Comisiwn y Cynulliad, mae adran 2 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd, wrth arfer ei swyddogaethau, i ymgynghori â'r rhai y mae ei benderfyniadau'n debygol o effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys Aelodau, staff a gyflogir gan Aelodau neu gan grwpiau o Aelodau, undebau llafur perthnasol ac unrhyw un arall y mae'r Bwrdd o'r farn ei fod yn briodol.

1.3.3 Cafwyd dadl ynghylch cyllideb Comisiwn y Cynulliad ym mis Ebrill 2016. Pleidleisiodd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn erbyn y gyllideb oherwydd ei bod yn cynnwys cyllideb i dalu cyflog uwch i Aelodau'r Cynulliad yn y Pumed Cynulliad. Yn ystod y ddadl, daeth yn amlwg bod y pleidiau eraill yn cefnogi swyddogaeth y Bwrdd a'i werth fel corff penderfynu annibynnol. Roeddent yn cytuno'n benodol na ddylai Aelodau'r Cynulliad allu rhwystro penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd.

1.3.4 Mae adran 2 o'r Mesur yn caniatáu i'r Bwrdd gyfarfod yn breifat os yw'n credu bod hynny'n briodol, ond mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddo weithredu mewn modd agored a thryloyw, a chyhoeddi ar wefan y Cynulliad wybodaeth am ei weithgareddau ar gyfer y cyhoedd. Yn ogystal â hyn, mae adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd osod gerbron y Cynulliad adroddiad blynyddol am ei weithgareddau, gan gynnwys yr adnoddau a ddefnyddir ganddo, yn ystod pob blwyddyn ariannol.

## 1.4 Egwyddorion

1.4.1 Mae gwaith y Bwrdd hyd yma yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion a ddiffiniwyd yn glir:

- dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Cynulliad a hwyluso gwaith ei Aelodau;
- rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;

– rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw ac yn gynaliadwy, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr

1.4.2 Bydd y Bwrdd newydd yn treulio’r ychydig fisoedd cyntaf yn datblygu set o egwyddorion ac amcanion llywodraethu newydd. Bydd hefyd yn adolygu ei strategaeth ar gyfer cyflawni ei waith drwy gydol y Pumed Cynulliad.

## 1.5 Methodoleg

1.5.1 Mae’r hyn a amlinellir yn y Penderfyniadau yn deillio o adolygiad tryloyw a chyfranogol o'r system cymorth ariannol a thaliadau, ac maent yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan yr Aelodau, eu staff, ac unigolion, sefydliadau a ffynonellau perthnasol eraill. Mae'r dystiolaeth y mae’r Bwrdd wedi’i chasglu wedi ei alluogi i greu darlun clir o ddibenion strategol y Cynulliad a'r ffordd y mae'r Aelodau yn cyflawni'r dibenion hynny. Mae'r Bwrdd wedi rhoi system daliadau ar waith sy'n targedu adnoddau er mwyn cefnogi'r dibenion hyn a phob agwedd ar rôl Aelod. Yn unol â'i gylch gwaith, mae'r Bwrdd yn ymateb i adborth yn ôl yr angen, drwy ystyried gwelliannau i'r Penderfyniad er mwyn sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas i'r diben.

1.5.2 Yn unol ag adran 9 o'r Mesur, bydd y Bwrdd yn cael cymorth clercio ac ymchwil, cyngor cyfreithiol a chyngor arall, a chymorth gweinyddol gan staff Comisiwn y Cynulliad. Darperir y cymorth hwn fel rhan o ddyletswyddau cyffredinol staff y Comisiwn, ac nid yw felly'n golygu bod y Bwrdd Taliadau’n ysgwyddo costau ychwanegol.

1.5.3 Er mwyn sicrhau gwell atebolrwydd, comisiynodd y Bwrdd blaenorol adolygiad o'i effeithiolrwydd ei hun. Arweiniodd hyn at nifer o argymhellion a adlewyrchwyd yn Adroddiad gwaddol y Bwrdd.

1.5.4 Cafwyd argymhellion pwysig ynghylch hunanddadansoddi a datblygu strategaeth gyfathrebu i wella’r broses o ymgysylltu â'r cyhoedd ac i hybu proffil y Bwrdd. Cafwyd argymhelliad hefyd ynghylch ymwneud rhagor â'r gymdeithas ddinesig, a oedd wedi bod yn siomedig o dawedog ynghylch llawer o ymgyngoriadau'r bwrdd blaenorol.

1.5.5 Yn ystod tymor yr hydref, ar ddechrau ein gwaith, canolbwyntiwyd ar sefydlu’r aelodau. Rhoddodd hyn gyfle i ni ddysgu rhagor am swyddogaeth y Bwrdd, sut mae'r Cynulliad yn gweithio a'r heriau cyfansoddiadol sy'n wynebu'r Bwrdd a'r Cynulliad yn y dyfodol. Bydd aelodau unigol y Bwrdd yn defnyddio'r profiad a gawsant drwy gydol eu cyfnod ymsefydlu i lywio penderfyniadau'r Bwrdd yn y dyfodol.

1.5.6 Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau adnoddau ar gyfer anghenion penodol yr Aelodau ac i ymateb i ofynion y Cynulliad wrth iddo esblygu, Yn ystod rhan gyntaf ein gwaith, ystyriwyd ein trefniadau llywodraethu a'r egwyddorion sy'n ein diffinio. Rydym wedi trafod pwysigrwydd targedu adnoddau i helpu Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau craidd; craffu ar bolisïau a chyllid; dal Llywodraeth Cymru i gyfrif; deddfu; a chynrychioli eu hetholwyr.

1.5.7 Nid yw hyn yn golygu na fydd y Bwrdd yn dymuno ystyried sut y gall ei swyddogaeth gyfrannu'n ehangach at ddatblygu'r Cynulliad yn strategol wrth i'r sefydliad dyfu a datblygu ac wrth i'w ofynion newid dros gyfnod.

1.5.8 Lle bydd y Bwrdd yn ei gweld yn briodol i ni gyfrannu at faterion sydd â chanlyniadau ehangach, megis ceisio dileu'r rhwystrau i'r rhai sy'n ystyried sefyll fel ymgeiswyr, bydd y Bwrdd yn gwneud hynny, gan gadw mewn cof ei gylch gwaith deddfwriaethol.

1.5.9 Bu'r Bwrdd blaenorol yn ymrafael â'r adolygiad manwl o'r Penderfyniad, ac aeth y cyfarfodydd yn hwy ac yn fwy mynych. Cafodd y Bwrdd ei hun hefyd yn ymrafael i raddau helaeth â manylion gweithredol. Er mwyn sicrhau bod gwaith y Bwrdd newydd yn llai beichus, byddwn yn ystyried ein rhaglen waith yn fanwl ac, yn benodol, yn sicrhau ei bod yn cydbwyso'r angen i feddwl yn strategol â'r gwaith angenrheidiol ym maes adolygu gweithredol a gwneud penderfyniadau.

## 1.6 Ymgynghori a Chasglu Tystiolaeth

1.6.1 Ym mhob rhan o'i waith, ac yn unol ag adran 2 o'r Mesur, mae'r Bwrdd wedi ymgynghori ag ystod o randdeiliaid. Aeth y Bwrdd blaenorol ati i chwilio am dystiolaeth i lywio'i benderfyniadau.

1.6.2 Mae adborth gan yr Aelodau yn ystod y sesiynau ymgynghori mynych wedi galluogi'r Bwrdd i werthuso pa mor effeithiol yw'r systemau a sefydlwyd ganddo. Bydd y Bwrdd newydd yn parhau â'r dull cyfranogol hwn ac yn ei gryfhau er mwyn sicrhau bod ei benderfyniadau yn parhau i fod yn addas at y diben.

1.6.3 Bydd y Bwrdd newydd yn pwysleisio pwysigrwydd sefydlu Grwpiau i Gynrychioli Aelodau’r Cynulliad a’u Staff Cymorth yn y Cynulliad newydd. Mae'r Cadeirydd wedi ystyried ei phrofiadau yn sgil mynychu Grwpiau Cynrychiolwyr ac wedi dod i’r casgliad eu bod yn fforymau gwerthfawr er mwyn clywed barn ddi-flewyn-ar-dafod Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Byddwn yn ceisio defnyddio'r Grwpiau hyn yn effeithiol yn y dyfodol i hybu penderfyniadau'r Bwrdd ac i ystyried materion a phryderon sy'n effeithio ar Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

# Gwaith y Bwrdd yn 2015-16

*Mae'r bennod hon yn egluro'r newidiadau y mae'r Bwrdd wedi'u gwneud i'r Penderfyniad eleni yn dilyn yr adborth a'r dystiolaeth a gafwyd gan yr Aelodau.*

## 1.7 Adolygu Penderfyniadau

1.7.1 Mae gofyn i'r Bwrdd adolygu'r Penderfyniad yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i roi i'r Aelodau yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau. Er mwyn gwneud hyn, gwahoddodd y Bwrdd blaenorol adborth a thystiolaeth gan yr Aelodau a oedd yn ei alluogi i asesu effeithiolrwydd y penderfyniadau a nodi unrhyw feysydd yr oedd angen eu hadolygu.

1.7.2 Adolygodd y Bwrdd benderfyniadau mewn nifer o feysydd, a restrir isod. Lle'r oedd angen, newidiwyd y Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad er mwyn creu pecyn o gymorth ariannol i'r Aelodau a fyddai'n addas ar gyfer sefydliad â mwy o bwerau deddfwriaethol a phwerau ym maes threthiant.

1.7.3 Er bod y Bwrdd blaenorol wedi pennu strwythur ar gyfer cyflogau Staff Cymorth, Costau Swyddfeydd a Gwariant ar Lety Preswyl ar gyfer y Pumed Cynulliad, y Bwrdd newydd a wnaeth y penderfyniad terfynol ynglŷn â'r union lefelau a fyddai'n berthnasol ar ddechrau'r Pumed Cynulliad, yng ngoleuni amgylchiadau'r farchnad ar y pryd ar ddechrau 2016.

1.7.4 I gyd-fynd â'r Penderfyniad, cyhoeddodd y Bwrdd blaenorol adroddiad manwl yn esbonio'r fethodoleg a fabwysiadwyd ganddo wrth gynnal ei adolygiad a'i sail resymegol dros ei benderfyniadau.

## 1.8 Newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer 2016-17

1.8.1 Ar ôl cryn waith ymchwil a thrafod, pennodd y Bwrdd blaenorol y cyflog sylfaenol ar gyfer Aelodau, a chyflogau ychwanegol ar gyfer deiliaid swyddi, a fydd i'w talu yn y Cynulliad nesaf. Ystyriwyd a ddylai'r hyblygrwydd presennol, sy'n caniatáu i Aelodau wrthod rhan o'r cyflog y mae ganddynt yr hawl iddo, barhau.

1.8.2 Mae'n amlwg i ni y dylai Aelodau gael tâl priodol sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y rôl. Fel Bwrdd, mae gennym ddyletswydd hefyd i beidio â rhwystro neb, am resymau ariannol, rhag sefyll etholiad

1.8.3 Rydym yn glir y dylid talu eu cyflog llawn i Aelodau. Fodd bynnag, dewis pob Aelod unigol yw sut i ddefnyddio'r cyflog hwnnw. Mae darpariaeth roi cyngor ac arweiniad i'r Aelodau ynghylch y materion hyn.

*Penderfyniad*

*Talu eu cyflog sylfaenol i Aelodau'r Pumed Cynulliad, ynghyd ag unrhyw gyflog ychwanegol perthnasol am ddal swydd, a hynny'n llawn.*

## 1.9 Cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad 2016-17 a'r buddion

1.9.1 Ystyriodd y Bwrdd gyd-destun ehangach cyflogau ar draws y Deyrnas Unedig yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae gweithwyr yn y sector preifat ar gyfartaledd yn dal i weld twf gwirioneddol yn eu cyflogau wrth i'r newidiadau mewn cyflogau canolrifol barhau'n uwch na chwyddiant; yn y flwyddyn hyd fis Medi 2015, roedd y twf yn y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) yn 0.8% ac yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn -0.1% Bydd cyfyngiad o 1% y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi'i osod ar godiadau cyflog y sector cyhoeddus yn parhau am y pedair blynedd nesaf.

1.9.2 Y llynedd, cynigiodd y Bwrdd blaenorol y dylid defnyddio'r enillion canolrifol blynyddol diweddaraf sydd ar gael ar gyfer staff amser llawn yng Nghymru (fel y'i mesurir gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion) i uwchraddio cyflogau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a chyflogau Aelodau'r Cynulliad. Roeddem yn cytuno mai dyma'r mynegai mwyaf addas ar gyfer penderfynu ynghylch codiad cyflog priodol ar gyfer 2016-17.

1.9.3 Rhyddhawyd ffigurau dros dro Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2015 ym mis Tachwedd 2015, sef 1.1%, ac ni ddisgwylir ffigurau diwygiedig tan fis Tachwedd 2016.

*Penderfyniad*

*Rhoi codiad cyflog o 1.1% i Staff Cymorth Aelodau Cynulliad ar gyfer 2016-17 1.1% yn unol â'r ffigurau ar gyfer enillion canolrifol yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2015 yng Nghymru.*

1.9.4 Cawsom ymatebion i'n hymgynghori ynghylch cyflogau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad yn dangos sut y gallai'r newidiadau yn natur gwleidyddiaeth ddatganoledig a'r gofynion ychwanegol a fyddai ar Aelodau'r Cynulliad effeithio ar

Staff Cymorth. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y mater hwn yn llywio ein trafodaethau yn y dyfodol.

1.9.5 Mae'r Bwrdd Taliadau yn gyfrifol am adolygu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad. Cytunodd y Bwrdd i adolygu'r polisïau er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn addas at y diben ar gyfer y Pumed Cynulliad ac ymgynghorwyd ag Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth ym mis Rhagfyr 2015.

1.9.6 Fel rhan o adolygu telerau ac amodau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a ddechreuwyd o dan y Bwrdd blaenorol, ystyriwyd mater nad oedd wedi'i ddatrys, sef a ddylid cyflwyno cyfnod cymhwyso cyn talu tâl salwch i Staff Cymorth. Nid oedd cyfnod cymhwyso ar gyfer tâl salwch. Roedd yr hawl i dâl salwch yn dechrau ar y diwrnod cyntaf, ac roedd gan staff yr hawl i chwe mis ar gyflog llawn a chwe mis ar hanner cyflog mewn cyfnod o bedair blynedd. Ystyriwyd sylwadau staff cymorth a sylwadau gan gynrychiolwyr eu Hundeb Llafur ac, er mai prin oedd y data a oedd gennym ar salwch ymysg Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad, roeddem yn cytuno na fyddai'n briodol cyflwyno trothwy cymhwyso ar gyfer tâl salwch ar hyn o bryd.

1.9.7 Roeddem yn gwybod hefyd am bryderon ynghylch trefniadau ariannu cyflogau staff grwpiau'r pleidiau pan fyddai eu swyddi'n dod i ben ar ôl yr etholiad. Pan fydd swyddi staff Aelodau unigol yn dod i ben ar ôl etholiad, bydd eu cyflogau'n cael eu talu tan ddiwrnod olaf eu cyflogaeth drwy gyfrwng lwfans Dirwyn i Ben yr Aelodau. Fodd bynnag, nid oes lwfans tebyg ar gael i grwpiau'r pleidiau. Roedd y Bwrdd yn cydnabod y byddai gorfod defnyddio cyllidebau'r pleidiau eu hunain i dalu am hyn yn creu anhawster. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, cytunwyd y dylid ariannu cyflogau staff grwpiau'r pleidiau y byddai eu swyddi'n dod i ben ar ôl yr etholiad, a hynny'n ganolog o gyllideb Comisiwn y Cynulliad.

*Penderfyniad*

*Ariannu staff sy'n colli eu swydd ar ôl etholiad drwy gyllideb Comisiwn y Cynulliad.*

1.9.8 Cytunodd y Bwrdd y dylid cynyddu cyfanswm y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol, sef £900,000, 1.1% yn unol â'r cynnydd arfaethedig yn y dyfarniad cyflog i Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad. Y lwfans newydd felly yw £910,000.

*Penderfyniad*

*Cynyddu cyfanswm y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol 1.1%.*

1.9.9 Cynhaliodd Comisiwn y Cynulliad arolwg yn gofyn i'r Staff Cymorth am eu hadborth ynghylch y wybodaeth a gânt am eu Cynllun Pensiwn, gan gynnwys pa mor effeithiol yw’r Cynghorydd Ariannol Annibynnol.

1.9.10 Roedd yn amlwg bod y Staff Cymorth yn gwerthfawrogi cael rhywun i siarad â nhw er mwyn deall eu pensiwn yn well a'u bod am gael gwybodaeth fwy eglur er mwyn deall eu cynllun yn well. Ystyriodd y Bwrdd sawl ffordd o fynd i’r afael â hyn gan gynnwys rôl y Cynghorydd Ariannol Annibynnol a chost darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol. Casglodd na fyddai'n penodi Cynghorydd Ariannol Annibynnol o fis Ebrill 2016 ymlaen. Yn hytrach, byddai Tîm Pensiynau Comisiwn y Cynulliad yn dod yn brif bwynt cyswllt i'r Staff Cymorth pe baent am holi am eu pensiwn.

*Penderfyniad*

*Terfynu'r contract â’r Cynghorydd Ariannol Annibynnol ar gyfer cynllun pensiwn Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a phenu Comisiwn y Cynulliad yn brif bwynt cyswllt i'r Staff Cymorth ofyn am gyngor am eu cynllun pensiwn.*

## 1.10 Costau Swyddfeydd 2016-17

1.10.1 Ystyriwyd y lwfans ar gyfer costau swyddfeydd ac a yw'n dal yn briodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17. Ystyriwyd nifer o ffactorau, gan gynnwys costau rhentu swyddfeydd drwy Gymru a chwyddiant: yr amcangyfrif diweddaraf a ddisgwylir ddiwedd 2015-16 yw twf CPI o 1.0% ac RPI o 1.9%. Cynigiodd y Bwrdd gynnydd o 1% yn y lwfans costau swyddfeydd neu'n unol â'r newid yn y CPI yn y flwyddyn hyd Ebrill 2016, pa un bynnag fyddai fwyaf.

*Penderfyniad*

*Cynyddu'r lwfans ar gyfer costau swyddfeydd 1% yn 2016-17. Bydd hyn yn cael ei adolygu eto ar gyfer 2017-18.*

## 1.11 Gwariant ar Lety Preswyl 2016-17

1.11.1 O ran Gwariant ar Lety Preswyl penderfynwyd:

– cadw at yr uchafswm o ran y lwfans y mae gan Aelodau'r ardal allanol yr hawl iddo, sef £735 y mis ar hyn o bryd ar gyfer taliadau rhent.

– cadw at y gyfradd ar gyfer y lwfans Gwariant ar Lety Preswyl sy'n berthnasol i waith atgyweirio hanfodol ar eiddo dan forgais sef, ar hyn o bryd, 10% o lwfans blynyddol yr ardal allanol.

– cadarnhau'r swm ar gyfer y lwfans cyfrifoldebau gofalu (ar yr amod bod achos busnes yn cael ei gymeradwyo) sef hyd at £1,440 y flwyddyn i dalu am gost uwch llety addas.

1.11.2 Ymrwymwyd hefyd i adolygu pob un o dair elfen y Gwariant ar Lety Preswyl yn 2017-18.

1.11.3 Ystyriodd y bwrdd y broses ar gyfer cael gafael ar lety preswyl addas i Aelodau. Ar ôl yr etholiad yn 2011, roedd yn ofynnol i Aelodau ddewis eiddo o fewn y cytundeb fframwaith a hwnnw'n cynnwys nifer cyfyngedig o asiantau. Teimlwyd bod hyn yn eu cyfyngu'n ormodol. Ein nod yw cynnig rhagor o hyblygrwydd i Aelodau, gan ddarparu ar yr un pryd restr o gyflenwyr cymeradwy er mwyn helpu i feithrin cysylltiadau ag Aelodau, helpu'r asiantaethau i ddod i wybod am ofynion yr Aelodau a sicrhau safon benodol o fewn yr eiddo. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, byddai proses gymeradwyo ar waith o hyd a threfniadau i benderfynu a yw'r asiantaethau'n ariannol hyfyw ac i sicrhau nad oes ganddynt gysylltiad mewn unrhyw ffordd â'r Aelod.

*Penderfyniadau*

*Cadw at uchafswm y lwfans llety preswyl y mae gan aelodau'r ardaloedd allanol yr hawl iddo. Parhau â chyfradd y lwfans Gwariant ar Lety Preswyl ar gyfer gwaith atgyweirio hanfodol. Gall y rhai sy'n hawlio am gyfrifoldebau gofalu gael lwfans hyd at £1,440 y flwyddyn i dalu am gost llety addas.*

*Rhoi rhagor o hyblygrwydd i Aelodau'r Cynulliad er mwyn iddynt allu cael gafael ar lety preswyl addas.*

## 1.12 Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad

1.12.1 Bu'r Bwrdd yn gweithio'n agos gydag Ymddiriedolwyr y cynllun blaenorol, Adran Actiwaraidd y Llywodraeth a'i Chynghorwyr Cyfreithiol allanol Gowling WLG (Wragge & Co gynt) i greu Cynllun Pensiwn wedi'i seilio ar Ailbrisio Enillion Cyfartalog Gyrfa yn hytrach nag ar Gyflog Terfynol.

1.12.2 Cymeradwywyd y cynllun pensiwn yn ffurfiol gan Drysorlys EM ym mis Ebrill 2016 a daeth i rym ar 6 Mai 2016.

1.12.3 Gofynnodd y Bwrdd i actiwari'r cynllun adolygu cyfradd y cyfraniadau a delir i'r Cynllun gan yr Aelodau a chan Gomisiwn y Cynulliad.

1.12.4 Cadarnhaodd yr Actiwari y dylai cyfanswm y cyfraniad sy'n daladwy i'r Cynllun fod yn 26% o gyflogau'r Aelodau ac y byddai hyn yn cael ei roi ar waith ar 6 Mai 2015. Bydd y Comisiwn yn cyfrannu 15.6% at y Cynllun. Bydd aelodau sy'n 55 oed neu'n hŷn ar 1af Ebrill 2012 yn parhau i dalu'r un lefel o gyfraniadau ag y maent yn awr. Bydd pob Aelod arall yn talu cyfaniad i'r Cynllun ar gyfradd o 10.5% o'u Cyflog.

1.12.5 Penodwyd Cadeirydd annibynnol i'r Bwrdd Pensiynau newydd. Bydd y Bwrdd Pensiynau newydd a fydd yn cynnwys dau aelod i gynrychioli Aelodau'r Cynulliad, dau i gynrychioli'r comisiwn a'r Cadeirydd Annibynnol yn dechrau ar ei waith yn ystod haf 2016.

## 1.13 Y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu

1.13.1 Caiff aelodau hawlio hyd at £2,500 y flwyddyn i gomisiynu darnau penodol o waith ymchwil o ffynonellau allanol ac i ganiatáu i Aelodau ymgysylltu â'u hetholwyr. Roedd yr adborth gan Aelodau sydd wedi defnyddio'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu yn y gorffennol yn gadarnhaol a chytunodd y Bwrdd i fonitro faint oedd yn ei defnyddio ac ystyried opsiynau ar gyfer ei gwella.

1.13.2 Tuag at ddiwedd ei flwyddyn olaf, penderfynodd y Bwrdd blaenorol y câi'r Aelodau, o'r Pumed Cynulliad ymlaen, ddefnyddio'r Gronfa i ymgysylltu â'u hetholwyr. Fodd bynnag, ni cheir ei defnyddio ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth y pleidiau. Cytunodd y Bwrdd y dylid adolygu hyn ar ôl blwyddyn

er mwyn sicrhau bod y Gronfa'n cael ei defnyddio'n briodol a’i bod yn cyflawni ei nodau.

1.13.3 Adolygodd y Bwrdd y rheolau a'r canllawiau ar gyfer y Gronfa i Aelodau'r Cynulliad yn ei gyfarfod ym mis Ionawr. Yn dilyn hyn mae canllawiau wedi'u rhoi i’r Aelodau newydd a’r rhai sy'n dychwelyd ar ddechrau'r Pumed Cynulliad.

1.13.4 Yn ystod 2015-16, defnyddiodd 11 o Aelodau'r Gronfa Polisi ac Ymchwil i wneud gwaith yn y meysydd a ganlyn:

**Gwybodaeth am brosiectau'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu, 2015-16**

| Aelod Cynulliad | Teitl |
|---|---|
| **Eluned Parrott** | Arolwg Iechyd |
| **Jocelyn Davies** | Ymchwil ar gyfer adroddiad, bargen decach i rentwyr |
| **Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol** | Arolwg Iechyd |
| **William Powell** | Gwerthuso'r Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020 hyd yn hyn, gyda phwyslais penodol ar ddarpariaeth amaeth-amgylcheddol yn ystod y 4ydd Cynulliad, a chyfleoedd i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau ar ôl Mai 16<br>2il ran – Gwerthuso’r effaith ar ffermwyr yng Nghymru pe bai’r Deyrnas Unedig yn gadael yr UE |
| **Altaf Hussain** | Paratoi adroddiad manwl am lwybrau i waith i bobl ifanc yn Ne-orllewin Cymru sy'n cynnwys cronfa ddata o fusnesau lleol sy'n cynnig cyfleoedd posibl i brentisiaid. Dylai'r adroddiad gael ei seilio ar dystiolaeth a geir drwy gysylltu'n uniongyrchol â busnesau lleol a phobl ifanc, gan gynnwys ffair prentisiaethau busnes. |
| **Grŵp Ceidwadwyr Cymreig** | Prosiect Ymgysylltu a Datblygu ym maes Polisi Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig Cynnal ymarfer meintiol ysgrifenedig gyda rhanddeiliaid allanol er mwyn helpu i ddatblygu polisi'r grŵp |
| **Russell George** | Arolygon wedi'u teilwra'n arbennig ar Ffermio ac Iechyd yn Sir Drefaldwyn |
| **Kirsty Williams** | Arolwg Iechyd |
| **Aled Roberts** | Arolwg Iechyd |
| **Peter Black** | Arolwg Iechyd |
| **Alun Ffred Jones** | Trethiant – Ateb Cymru i broblemau Cymru |

## 1.14 Ystyried taliadau eithriadol

1.14.1 Mae'r Bwrdd yn sylweddoli y gall Aelodau unigol o bryd i'w gilydd wynebu amgylchiadau penodol eithriadol sy'n effeithio ar eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd y rhain yn aml yn gyfrinachol o ran eu natur a gallant godi heb fawr o rybudd. Mae'n ddyletswydd ar y Bwrdd i gefnogi Aelodau ym mhob agwedd ar eu rôl a'i farn yw, os daw amgylchiadau o'r fath i'w sylw, y dylai benderfynu a ddylid darparu cymorth ariannol eithriadol. Mae'n amlwg y bydd angen ymdrin ag unrhyw geisiadau o'r fath yn sensitif, gan sicrhau ar yr un pryd bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith ar gyfer adrodd ynghylch ystyriaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd.

1.14.2 Yn ystod y flwyddyn, ni chafodd y Bwrdd yr un cais o dan y weithdrefn hon.

1.14.3 Bydd y Bwrdd yn ystyried ei strategaeth ar gyfer ei dymor gwaith yn ystod y misoedd nesaf. Byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu ag Aelodau, Staff Cymorth a'r cyhoedd yn y dyfodol.

1.14.4 Fel rhan o'i benderfyniad ynghylch cyflogau deiliaid swyddi yn y Pumed Cynulliad, pennodd y Bwrdd blaenorol gyflogau ychwanegol ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau, gan dybio y byddai strwythur presennol y Pwyllgorau yn parhau fel yr oedd yn y Pedwerydd Cynulliad. Mae'r Bwrdd newydd wrthi'n adolygu cyflogau Cadeiryddion y Pwyllgorau yn seiliedig ar y strwythur newydd ar gyfer y Pwyllgorau. Mae'r Bwrdd yn bwriadu penderfynu mewn pryd ar gyfer tymor yr hydref 2016.

1.14.5 Bydd y Bwrdd yn parhau i archwilio ac adolygu polisïau lle bydd angen ac yn sicrhau bod y gweithdrefnau newydd yn gweithio'n effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r trefniadau newydd ar gyfer y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu yn nhymor yr hydref, yn unol ag ymrwymiad y Bwrdd blaenorol i'w hadolygu flwyddyn ar ôl ei rhoi ar waith.

# Cylch Gwaith ac Aelodaeth y Bwrdd Taliadau

1.14.6 Sefydlwyd y Bwrdd Taliadau drwy Fesur (Cynulliad Cenedlaethol Cymru Taliadau) 2010.

1.14.7 Corff statudol annibynnol yw’r Bwrdd sy'n gyfrifol am y canlynol:

– sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael lefel o dâl sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni, ac nad yw, ar sail ariannol, yn rhwystro pobl sydd â'r ymroddiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol yn Aelodau Cynulliad;

– sicrhau bod gan Aelodau'r Cynulliad adnoddau digonol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau; a

– sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

1.14.8 Gofynnir i'r Bwrdd ymddwyn mewn ffordd agored a thryloyw ac ymgynghori â'r rhai y mae'r gwaith o arfer ei swyddogaethau yn debygol o effeithio arnynt, os bydd o'r farn bod hynny'n briodol.

1.14.9 Caiff costau'r Bwrdd a'r treuliau a hawliwyd gan yr Aelodau eu cyhoeddi ar ddiwedd yr adroddiad blynyddol hwn. Mae agenda a chofnodion pob un o gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd ar gael ar wefan y Bwrdd yn:

**http://www.senedd.assembly.wales/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=375**

# Atodiad A: Aelodau'r Bwrdd newydd (Medi 2015 - Ebrill 2016)



### Y Fonesig Primarolo (Cadeirydd)



Un o wleidyddion Plaid Lafur Prydain yw'r Fonesig Dawn Primarolo, DBE, ac roedd yn Aelod Seneddol dros Dde Bryste rhwng 1987 a 2015, pan roddodd y gorau iddi. Roedd yn Weinidog Gwladol dros Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd rhwng mis Mehefin 2009 a mis Mai 2010 a bu'n Ddirprwy Lefarydd Tŷ'r Cyffredin o 2010 ymlaen. Fe'i penodwyd yn Fonesig Gadlywydd am ei gwasanaeth gwleidyddol.

Ganwyd Dawn yn Llundain, ac fe'i magwyd yn Crawley, Gorllewin Sussex. Dychwelodd i Lundain i weithio yn 1973, gan ymuno â'r Blaid Lafur yn ystod y cyfnod pan oedd yn gweithio fel ysgrifennydd cyfreithiol mewn Canolfan Gyfraith yn nwyrain Llundain.

Symudodd i Fryste yn 1974 a ganwyd ei mab, Luke, yn 1978. Astudiodd ar gyfer BA (Anrh) mewn gwyddor gymdeithasol ym Mholitechnig Bryste fel myfyriwr hŷn ac unig riant ac wedyn, gwnaeth ymchwil Ph.D. ym maes menywod a thai.

Etholwyd Dawn i Senedd y DU gyntaf yn etholiad cyffredinol 1987 ac mae wedi dal y swyddi a ganlyn:

– 1992–1994: Llefarydd yr Wrthblaid dros Iechyd

– 1994–1997: Llefarydd yr Wrthblaid dros y Trysorlys

– 1997–1999: Ysgrifennydd Ariannol i'r Trysorlys

– 1999–2007: Tâl-feistr Cyffredinol

– 2007–2009: Gweinidog Gwladol dros Iechyd Cyhoeddus

– 2009–2010: Gweinidog Gwladol dros Blant a Phobl Ifanc

Rhoddwyd Arglwyddiaeth Oes yn y Deyrnas Unedig i Dawn ym mis Awst 2015.

## Trevor Trevor Reaney



Penodwyd Trevor Reaney yn Glerc ac yn Brif Weithredwr i Gynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Awst 2008. Dechreuodd Trevor ei yrfa yn y diwydiant lletygarwch ac mae wedi dal nifer o swyddi rheoli yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Cyn ymuno â'r Cynulliad, roedd Trevor yn Brif Weithredwr Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon o fis Ionawr 2004 a chyn hynny, roedd yn brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Craigavon rhwng 1996 a 2003.

Mae Trevor yn aelod o nifer o sefydliadau ac yn dal swydd mewn nifer ohonynt:

– Cymrawd i'r Sefydliad Rheoli

– Cymrawd i Gymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd

– Ymddiriedolwr a Dirprwy Gadeirydd Buttle UK (elusen blant)

– Ymddiriedolwr Tree Aid (elusen ddatblygu ryngwladol).

## Michael Redhouse



Mae Michael Redhouse ar hyn o bryd yn Bennaeth EMES Consulting, a sefydlwyd ganddo yn 2002, ac mae’n helpu llawer o sefydliadau mawr ym maes taliadau a buddion. Graddiodd Michael mewn mathemateg yn y Brifysgol Agored, ac mae ei yrfa wedi cynnwys cyfnodau fel Partner gydag Ernst and Young, ac fel Cyfarwyddwyr Polisi Cyflogaeth yn Diageo. Ar hyn o bryd, mae Michael yn gwasanaethu fel un o Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth APEX, sy'n helpu troseddwyr sy'n dychwelyd i'r gwaith, ac mae’n Gadeirydd Ymddiriedolwyr Hosbis St Luc yn Harrow.

Mae Michael yn Aelod o’r Corff Adolygu Athrawon Ysgolion sy'n edrych ar gyflogau, dyletswyddau proffesiynol ac oriau gwaith athrawon ysgol yng Nghymru a Lloegr gan adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol.

## Y Fonesig Jane Roberts



Mae gan y Fonesig Jane Roberts gefndir helaeth ym maes llywodraeth leol ac iechyd. Bu Jane yn Arweinydd Cyngor Camden rhwng 2000 a 2005, gan wasanaethu fel cynghorydd am 16 mlynedd. Roedd yn gadeirydd ar Gomisiwn y Cynghorwyr I’r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol rhwng 2007 a 2009 ac ar hyn o bryd mae'n cadeirio'r felin drafod, Rhwydwaith Llywodraeth Leol Newydd.

Meddyg yw Jane o ran ei phroffesiwn ac mae'n feddyg ymgynghorol mewn ysbyty ym maes Seiciatreg Plant a'r Glasoed. Roedd yn Gyfarwyddwr Meddygol ac wedyn yn Gyfarwyddwr Ansawdd a Pherfformiad yn Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol

Islington.

Mae gan Jane ystod eang o brofiad anweithredol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector a hynny'n bennaf ym maes iechyd, addysg, polisi cyhoeddus a moeseg, gan gynnwys fel Cyfarwyddwr Anweithredol yn Ofsted rhwng 2006 a 2011 ac fel Cadeirydd Parenting UK rhwng 2006 a 2012. Mae'n un o ymddiriedolwyr y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus ac yn aelod o gorff llywodraethu'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru.

Mae Jane wedi ysgrifennu nifer o bapurau academaidd sydd wedi'u hadolygu gan gyfoedion ym maes pediatreg a seiciatreg, a hefyd bu'n cydolygu'r llyfr "The Politics of Attachment" (1996). Mae'n Gymrawd ar Ymweliad yn y Brifysgol Agored ac wedi cyhoeddi gwaith yn 2015 yn sgil ei hymchwil i'r cyfnod pontio wrth ymadael â swydd wleidyddol.

### Roger Williams CBE



Mae gan Roger Williams, CBE gyfoeth o brofiad ym maes gwasanaeth cyhoeddus ac mae wedi bod yn lladmerydd dros bobl ac achosion lleol ers dros dri ddeng mlynedd ar hugain.

Ganwyd Roger yng Nghrucywel ac mae'n dal i fyw yn y ffermdy o'r unfed ganrif ar bymtheg ger Aberhonddu, lle y'i magwyd. Yn 1969, ar ôl graddio yn y Gwyddorau Naturiol yng Ngholeg Selwyn, Caergrawnt, dechreuodd Roger ar ei yrfa fel ffermwr da byw ar fferm y teulu - gyrfa a barhaodd nes iddo gael ei ethol yn 2001.

Yn ystod canol yr 1980au, fe'i etholwyd yn Gadeirydd cangen Brycheiniog a Maesyfed o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr. Daeth yn Gadeirydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn 1990 ac yn aelod o Fwrdd Datblygu Cymru Wledig rhwng 1991 a 1999. Yn 1981, daeth yn gynghorydd Sir, yn gyntaf i'r SDP ac yna i'r Democratiaid Rhyddfrydol. Ar ôl ugain mlynedd o wasanaeth ar Gyngor Sir Powys, etholwyd Roger yn AS dros Frycheiniog a Maesyfed yn 2001, tan fis Mawrth 2015.

Yn ystod ei gyfnod yn y Senedd, mae wedi dal gwahanol swyddi, gan gynnwys swydd Ysgrifennydd yr Wrthblaid dros Gymru, Llefarydd yr Wrthblaid dros Faterion Gwledig a Dirprwy Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

# Atodiad B: Aelodau'r Bwrdd blaenorol (hyd at fis Medi 2015)



## Sandy Blair CBE DL (Cadeirydd)



Mae Sandy yn gyn-gyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (fe ymddeolodd yn 2004). Roedd yn brif weithredwr awdurdod lleol am 16 mlynedd cyn cael ei benodi i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac ef oedd Llywydd Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE) rhwng 1999 a 2000. Mae wedi cael ei gyflogi mewn nifer o swyddi cyhoeddus, gan gynnwys bod yn gyfarwyddwr anweithredol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae'n gadeirydd Bwrdd Cyllid Esgobaeth Mynwy, yn Ymddiriedolwr Sefydliad Bevan a Growing Space, yn Is-lywydd Clwb Busnes Caerdydd ac mae ganddo nifer o swyddi ar Gorff Llywodraethu a Chorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru. Mae wedi bod yn aelod o Bwyllgorau Taliadau UWIC a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

## Mary Carter



Ymddeolodd Mary o fod yn bartner gyda KPMG ym mis Medi 2008. Mae'n gyn-aelod o Gorff Adolygu Cyflogau'r Lluoedd Arfog, sy'n gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn ynghylch cflogau, lwfansau digolledu a thaliadau'r fyddin ac mae'n Ymgynghorydd Lleyg ar gyfer Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA (Cytundebau Aml-asiantaeth i Ddiogelu'r Cyhoedd) yng Ngwlad yr Haf. Cefndir ym maes y gyfraith sydd ganddi ac mae wedi arbenigo ers dros 25 mlynedd mewn cynghori cwmnïau yn y DU a thu hwnt ynghylch cyflogau a chymhellion ariannol ar gyfer cyfarwyddwyr/uwch-reolwyr a materion rheoli a threthu cysylltiedig

## Stuart Castledine



Cyfrifydd siartredig sydd wedi dal nifer o swyddi ariannol a rheolaeth gyffredinol yn y sector yswiriant a bancio cyn dod yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol cyntaf Tesco. Yn fwy diweddar, mae Stuart wedi ymgymryd ag amrywiaeth o ddyletswyddau heriol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan helpu i sefydlu cyd-fentrau a chynghreiriau sylweddol yn ogystal â bod yn llwyddiannus fel cyfarwyddwr yn trawsnewid sefydliadau sy'n methu. Bu Stuart yn gyfarwyddwr anweithredol ac yn gadeirydd Pwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans GIG Cymru rhwng 2010 a 2014.

## Professor Monojit Chatterji



Mae'n academydd a chanddo brofiad sylweddol ym maes polisi cyhoeddus, ac mae wedi cyhoeddi gwaith ymchwil mewn sawl maes, gan gynnwys y ffactorau sy'n pennu cyflogau yn y sector cyhoeddus. Yn ei rôl gyhoeddus arall, mae'n aelod o Bwyllgor Llefarydd Tŷ'r Cyffredin ar gyfer yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol. Mae'n Gymrawd ac yn Gyfarwyddwr Astudiaethau Economeg yng Ngholeg Sidney Sussex, Caergrawnt, yn Gyfarwyddwr Astudiaethau Economeg yn Neuadd y Drindod, Caergrawnt, ac yn Athro Emeritws ym Mhrifysgol Dundee.

Mae'r Athro Chatterji yn gyn-gadeirydd Cydgyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub y DU (corff negodi cyflogau) ac mae wedi bod yn aelod o'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol, sy'n gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau ynghylch cyflogau, amodau, a threfniadau llywodraethu ar gyfer athrawon a phrifathrawon yng Nghymru a Lloegr. Mae'n gyn-aelod o Grŵp Economegwyr, Swyddfa Economeg y Gweithlu, sy'n ystyried materion trawsbynciol o ran cyflogau yn y sector cyhoeddus.

## Yr Athro Laura McAllister



Athro Llywodraethu yn Ysgol Reoli Prifysgol Lerpwl yw Laura McAllister ac mae'n arbenigwr ar ddatganoli. Roedd Laura yn aelod o Gomisiwn Richard ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2002-04), a darparodd gyngor ymchwil i'r Panel Annibynnol ar Gyflogau a Chymorth i Aelodau'r Cynulliad yn 2008-09. Laura oedd cadeirydd y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol (2013 a 2014).

Mae'n gyn-chwaraewr rhyngwladol ac yn gyn-gapten tîm pêl-droed cenedlaethol Cymru sydd wedi ennill 24 o gapiau, ac mae Laura yn Gadeirydd Chwaraeon Cymru (Cyngor Chwaraeon Cymru gynt). Mae hi'n Aelod o Fwrdd UK Sport, sef asiantaeth y Llywodraeth ar gyfer chwaraeon Olympaidd a Pharalympaidd, ac yn aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth Pêl-droed Cymru. Mae'n Ymddiriedolwr y Sefydliad Materion Cymreig, yn ogystal â bod yn aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru y Cyngor Prydeinig.

# Atodiad C: Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd

Mae'r tabl isod yn dangos y costau uniongyrchol a ysgwyddwyd gan y Bwrdd Taliadau yn 2015-16. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliwyd chwe chyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd. Aeth Aelodau'r Bwrdd i gyfarfodydd ychwanegol a thelegynadleddau gyda chynghorwyr allanol ynghylch pensiynau hefyd. Daeth tymor y Bwrdd blaenorol i ben ym mis Medi 2015. Dechreuodd y Bwrdd newydd ar ei waith ym mis Medi 2015. Mae'r tablau isod yn rhoi ffioedd a threuliau'r ddau Fwrdd. Adolygwyd cyfradd ffioedd aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd tymor gwaith y Bwrdd blaenorol.

## Ffioedd Aelodau'r Bwrdd (cyn treth)

Y Bwrdd Blaenorol (Ebrill 2015-Medi 2015)

| | Sandy Blair (Cadeirydd) | Monojit Chatterji | Mary Carter | Stuart Castledine | Laura McAllister | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | **£** |
| Cyfradd ddyddiol | £243.00 | £185.00 | £185.00 | £185.00 | £185.00 | |
| Ffioedd | £2,423.17 | £1,110.00 | £2,212.95 | £2,426.27 | £1,485.69 | **£9,658.08** |

Y Bwrdd Newydd (Medi 2015-Ebrill 2016)

| | Y Fonesig Primarolo (Cadeirydd) | Trevor Reaney | Y Fonesig Jane Roberts | Michael Redhouse | Roger Williams | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | **£** |
| Cyfradd ddyddiol | £333.00 | £267.00 | £267.00 | £267.00 | £267.00 | |
| Ffioedd | £4,982.67 | £1,850.90 | £1,911.74 | £2,742.92 | £2,092.83 | **£13,581.06** |

### Treuliau Aelodau'r Bwrdd

| | Sandy Blair (Cadeirydd) | Monojit Chatterji | Mary Carter | Stuart Castledine | Laura McAllister | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Milltiroedd car | £225.00 | £90.00 | £304.60 | £0.00 | £0.00 | **£619.60** |
| Tacsi/Llogi Car | £0.00 | £71.72 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | **£71.72** |
| Teithio mewn Awyren | £0.00 | £503.63 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | **£503.63** |
| Trên a Thiwb | £0.00 | £193.95 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | **£193.95** |
| Tollau | £0.00 | £0.00 | £13.00 | £0.00 | £0.00 | **£13.00** |
| Treuliau Eraill | £0.00 | £11.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | **£11.00** |
| Llety | £0.00 | £144.00 | £72.00 | £0.00 | £0.00 | **£216.00** |
| Cynhaliaeth | £0.00 | £20.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | **£20.00** |
| Cyfanswm | **£225.00** | **£1,034.30** | **£389.60** | **£0.00** | **£0.00** | **£1,648.9** |

| | Y Fonesig Primarolo (Cadeirydd) | Trevor Reaney | Y Fonesig Jane Roberts | Michael Redhouse | Roger Williams | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Milltiroedd car | £318.60 | £402.30 | £139.50 | £0.00 | £275.94 | **£1136.34** |
| Tacsi/Llogi Car | £37.60 | £223.81 | £27.48 | £37.17 | £2.40 | **£328.46** |
| Teithio mewn Awyren | £0.00 | £286.46 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | **£286.46** |
| Trên a Thiwb | £28.15 | £0.00 | £271.80 | £757.90 | £0.00 | **£1057.85** |
| Tollau | £45.70 | £0.00 | £6.40 | £0.00 | £0.00 | **£52.10** |
| Treuliau Eraill | £0.00 | £167.22 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | **£167.22** |
| Llety | £220.00 | £364.00 | £292.00 | £220.00 | £146.00 | **£1242.00** |
| Cynhaliaeth | £14.90 | £77.65 | £14.90 | £14.90 | £14.90 | **£137.25** |
| Cyfanswm | **£664.95** | **1,521.44** | **£752.08** | **£1,029.97** | **£439.24** | **£4407.68** |

## Costau Ychwanegol

| | Cyfanswm |
|---|---|
| Treuliau Cyfarfodydd y Bwrdd (arlwyo ac ati) | £745.63 |
| Diverse Cymru (cyngor ynghylch materion cydraddoldeb) | £1,250.00 |
| Cyngor cyfreithiol am drefniadau pensiynau Aelodau'r Cynulliad gan Gowling WG (Wragge & Co Gynt) | £10,086.00 |
| Cyfanswm | **£12,081.63** |
| **Cyfanswm Cost** | **£41,377.35** |